# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 27 Mawrth 2001

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

### Adeiladedd yr Undeb Ewropeaidd

**C12 Elin Jones:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad byr ar y rhan a fydd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn y ddadl ar strwythur yr Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol? (OAQ10564) ***Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig.***

**Prif Weinidog Cymru:** Bydd Papur Gwyn y Comisiwn Ewropeaidd ar lywodraethu, y bwriedir ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf, yn agor dadl eang ar sut mae'r UE yn cael ei lywodraethu. Ar y cychwyn, y Pwyllgor Materion Ewropeaidd fydd yn yn ystyried y Papur Gwyn. Mae'n rhy gynnar hyd yn hyn i ragweld beth fydd agenda cynhadledd ryng-lywodraethol 2004, ond byddaf yn monitro'r datblygiadau hyn yn agos.

### 'Rhoi Cymru'n Gyntaf'

**C13 Jonathan Morgan:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru roi adroddiad ar y cynnydd a wnaethpwyd hyd yma wrth weithredu 'Rhoi Cymru'n Gyntaf'? (OAQ10573) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Arian Sengl Ewrop

**C14 Christine Gwyther:** Pa drafodaethau a gafodd Prif Weinidog Cymru gyda'i gyd-Weinidogion yn San Steffan ynghylch y goblygiadau posibl i Gymru pan ddaw'r ewro i rym yn llawn yn 2002? (OAQ10575) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Iechyd a Chynhwysiant Cymdeithasol

**C15 Janet Davies:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar y modd y mae'r Cynulliad, drwy ddatblygu a chydlynu materion iechyd, gofal cymdeithasol a chynhwysiant cymdeithasol, yn bwriadu helpu'r 40 y cant o oedolion yng Nghymru y mae eu hiechyd yn amharu ar eu gweithgareddau cymdeithasol o ddydd i ddydd? (OAQ10559) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Yr Iaith Gymraeg

**C16 Helen Mary Jones:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad byr ar y modd y mae'r Gymraeg yn effeithio ar bob un o feysydd polisi'r Cynulliad, gan gynnwys gofal iechyd, addysg a datblygu economaidd? (OAQ10552) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Gogledd Cymru

**C17 Gareth Jones:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar hynt ddiweddar polisi a strategaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru yng ngogledd Cymru? (OAQ10554) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Polisi Rhyngwladol

**C18 Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar gryfder y berthynas rhwng Cymru, y Deyrnas Unedig a gweddill yr Undeb Ewropeaidd o ran polisi rhyngwladol? (OAQ10555) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Cysylltiadau rhwng Cymru ac Ewrop

**C19 Brian Hancock:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar ymdrechion diweddar i feithrin cysylltiadau agosach rhwng Cymru a gweddill Ewrop? (OAQ10558) ***Tynnwyd yn ôl.***

*Atebwyd cwestiynau 20 a 21 yn y Cyfarfod Llawn.*

### Canolfan Ewropeaidd Cymru

**C22 Glyn Davies:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru roi braslun o swyddogaeth Canolfan Ewropeaidd Cymru? (OAQ10579)

**Prif Weinidog Cymru:** Partneriaeth yw Canolfan Ewropeaidd Cymru, â'i phencadlys ym Mrwsel. Mae'n darparu ystod o wasanaethau yn ymwneud â'r Undeb Ewropeaidd i'w haelodau. Ei phrif ddyletswydd yw darparu gwybodaeth a chymorth ar lobïo ym Mrwsel. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol ymhlith y cyrff sydd yn bartneriaid i Ganolfan Ewropeaidd Cymru.

### Ymwybyddiaeth Pleidleiswyr

**C23 Richard Edwards:** Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cael gyda'i gydweithwyr yn San Steffan ynghylch datblygu dulliau o godi ymwybyddiaeth pleidleiswyr yng Nghymru? (OAQ10576) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Partneriaethau Busnesau Traws-sector

**C24 Alun Cairns:** Pa gynnydd a gafwyd o ran datblygu partneriaethau busnes ar draws pob sector yng Nghymru? (OAQ10582)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae'r Cyngor Partneriaeth Busnes wedi cyfarfod pum gwaith ers ei gyfarfod cyntaf ar 16 Rhagfyr 1999. Y bwriad gwreiddiol oedd cynnal cyfarfod ddwywaith y flwyddyn, ond erbyn hyn fe'u cynhelir teirgwaith y flwyddyn. Cynhaliwyd cyfarfod ychwanegol, y pumed, i ystyried pedair dogfen allweddol y bu'r Cynulliad yn eu cyflwyno ar gyfer ymgynghori, gan gynnwys yr adolygiad o gymorth i fusnes. Yr ydym wedi cytuno, mewn egwyddor, i ariannu uned partneriaid cymdeithasol, hyrwyddo ymgynghori statudol a chynorthwyo'r prosesau sydd yn ymwneud ag Amcan 1. Erbyn hyn mae pedwar fforwm economaidd rhanbarthol sydd, gyda'i gilydd, yn cwmpasu Cymru gyfan. Eu swyddogaeth yw cefnogi'r blaenoriaethau rhanbarthol o ran twf economaidd a bwydo i mewn i strategaethau cyrff datblygu busnesau. Yr ydym hefyd yn cefnogi ystod o fforymau diwydiannol sydd yn dod â chwmnïau, grwpiau academaidd a chyrff cefnogi busnes ynghyd mewn meysydd technolegol penodol.

### Gwella'r Berthynas rhwng Cymru ac Ewrop

**C25 Nick Bourne:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar ei ymdrechion i wella'r berthynas rhwng Cymru a gweddill Ewrop? (OAQ10574)

**Prif Weinidog Cymru:** Yr wyf yn cyfarfod yn rheolaidd â chynrychiolwyr sawl sefydliad yr Undeb Ewropeaidd i drafod materion, gan gynnwys sut y gall y Cynulliad gryfhau'r cysylltiadau rhwng Cymru a gweddill Ewrop. Y mis diwethaf, euthum i Frwsel ar gyfer cyfres o gyfarfodydd i drafod proffil Cymru ac agenda polisïau'r UE.

Cafwyd cyfle hefyd am drafodaeth eang ar Gymru, Ewrop a'r byd ehangach yng Ngwesty'r Celtic Manor ar ddydd Gŵyl Dewi. Traddododd Prif Weinidog Iwerddon, un o'n cymdogion agosaf yn yr UE, araith bwysig yno. Yn bresennol hefyd yr oedd diplomyddion sydd yn y DU yn cynrychioli gwledydd Ewrop a'r tu hwnt.

Erbyn hyn mae ein swyddfa ym Mrwsel wedi ei hen ymsefydlu yn rhan o deulu'r cyrff sydd yn cynrychioli'r DU yn barhaus ac yr ydym yn bartner allweddol i Ganolfan Ewropeaidd Cymru.

Hefyd, mae'r ffaith ein bod yn aelod o Bwyllgor y Rhanbarthau a bod Aelodau'r Cynulliad yn fodlon chwarae rhan ar lefel Ewrop yn codi proffil Cymru yn Ewrop.

Byddaf yn croesawu'r Arlywydd Pujol o Gatalonia i Gymru ar 6 Ebrill.

### Argyfwng Clwy'r Traed a'r Genau

**C26 Peter Black:** Sut y mae Prif Weinidog Cymru yn cydlynu polisïau i helpu'r rhannau o Gymru sydd wedi'u heffeithio'n arbennig gan glwy'r traed a'r genau? (OAQ10546)

**Prif Weinidog Cymru:** Y Cabinet sydd yn gyfrifol yn gyffredinol. Mae Dirprwy Prif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros Faterion Gwledig yn arwain trefniadau beunyddiol ymateb y Cynulliad Cenedlaethol i glwy'r traed a'r genau.

### Y Gynhadledd Rynglywodraethol

**C27 Phil Williams:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad byr ar y rhan a fydd gan y Cynulliad yn y paratoadau ar gyfer y ddirprwyaeth nesaf o'r Deyrnas Unedig i'r gynhadledd rynglywodraethol? (OAQ10563) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Polisïau Amgylcheddol, Diwylliannol, a Chymdeithasol

**C28 Dafydd Wigley:** Pa ddulliau y mae Prif Weinidog Cymru yn eu defnyddio i sicrhau bod cyfranogiad cymunedol yn cael ei hybu ym mhob agwedd ar bolisi amgylcheddol, polisi diwylliant a pholisi cymdeithasol? (OAQ10553) ***Tynnwyd yn ôl.***